**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY - ADRODDIAD AR EI BLWYDDYN GYNTAF**

**Diben**

1. Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am adroddiad ar flwyddyn gyntaf y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy.

**Cefndir**

2. Ym mis Ebrill 1999, cafodd rhaglen newydd ei chyflwyno gan y Swyddfa Gymreig ar gyfer ariannu mentrau a phrosiectau lleol. Ei nod oedd sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy lle yr oedd cynigion i fuddsoddi yn y stoc dai wedi cael eu cymeradwyo, neu lle yr oedd buddsoddi wedi bod yn y stoc dai yn ddiweddar.

3. Yr oedd £250,000 ar gael ar gyfer 1999/2000, ac yr oedd yr un swm ar gael ar gyfer y ddwy flynedd ariannol dilynol hefyd. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu hyd at 75% o gyfanswm costau’r ceisiadau llwyddiannus. Cafodd arian refeniw ei ganiatáu am hyd at dair blynedd, a hynny ar yr amod bod adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal a bod y prosiectau'n symud ymlaen yn foddhaol yn unol â'r amcanion a’r targedau y cytunir arnynt. Yn ogystal, gwahoddwyd ceisiadau am arian cyfalaf.

4. Rhoddir y pwerau ariannu o dan Adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

5. Cafodd arian ei dargedu drwy raglenni datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol, neu cafodd ei roi'n swm ychwanegol i unrhyw rai o’r prosiectau Pobl mewn Cymunedau a oedd yn bod eisoes.

6. Y maen prawf allweddol oedd ategu buddsoddiad o bwys sy'n dod i ben neu’n dechrau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, boed hwnnw'n ddatblygu newydd neu'n adfywio, neu, yn achos Pobl mewn Cymunedau, ategu elfen o gynllun cymunedol y cytunwyd arno, a'i rhoi ar waith.

7. Daeth 42 o enwebiadau i law yn y flwyddyn gyntafa’r cyfanswm oedd £1,070,754. Cafodd tîm asesu ei sefydlu i ystyried yr enwebiadau. Yr oedd yn cynnwys Rheolwyr Ardaloedd Adnewyddu Tai a Chymunedau sy’n ymdrin â buddsoddiad gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig/ landlordiaid awdurdodau lleol ledled Cymru, a swyddogion o’r Gangen Cynhwysiant

Cymdeithasol, yr Is-adran Perfformiad a Chyllid Tai a'r Is-adran Plant a Theuluoedd.

8. Ym mis Chwefror 2000, cyhoeddoedd Mr Peter Law becyn i ariannu 15 o brosiectau lleol. Mae'r rhain yn darparu amrediad o wasanaethau a chyfleusterau sy'n helpu i wella bywyd mewn cymunedau yng Nghymru. Yn **Atodiad** darperir rhestr o'r ceisiadau llwyddiannus hynny a'r symiau a roddwyd iddynt.

9. Mae amrediad eang o brosiectau wedi cael eu hariannu drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy, megis cyfleusterau gofal plant a grwpiau mamau a phlant bach a chanolfan byw'n iach. Yn ogystal, mae llawer o fentrau hyfforddi wedi cael eu datblygu ac mae'r 11 cynllun sydd ag elfen o hyfforddi ynddynt yn rhan bwysig o flwyddyn gyntaf y prosiect. Rhestrir rhai o'r prosiectau isod:

- Mae prosiect Crochenwaith Cymuned y Gurnos ym Merthyr Tudful yn defnyddio celf yn gyfrwng i ennyn hunanhyder a hunan-barch. Yma, mae trigolion y stad yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau personol drwy gymryd rhan mewn dosbarthiadau celf – ar hyn o bryd, mae 42 o drigolion yn cymryd rhan bob wythnos. Mae'r cynllun hwn wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y chwe mis diwethaf, a chan ei fod mor boblogaidd, mae Adran Addysg Barhaus yr Awdurdod Addysg Lleol wedi cytuno i ariannu dosbarthiadau ychwanegol. Drwy fynd i'r dosbarthiadau hyn, mae 10 o drigolion wedi ennill cymwysterau gan Rwydwaith y Coleg Agored ac mae dau gyn-ddisgybl bellach yn arwain dosbarthiadau. Yn ogystal, mae'r cynllun hwn wedi'i gysylltu â'r fenter Pobl mewn Cymunedau ehangach yn y cylch ac mae'n tynnu ar fodel y Farchnad Lafur Gyfryngol a ddatblygwyd drwy'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau. Mae cynlluniau ar y gweill i greu man gwerthu Celf a Chrefft ym Mharc Cyfarthfa lle y caiff y crochenwaith a gynhyrchir ei werthu. Mae'r cynllun hwn yn enghraifft wych o'r modd y mae prosiect bach yn rhan o'r gymuned ehangach. Yn ogystal, mae ymchwil yn cael ei gwneud i'r posibiliadau o ran creu cwmni cymunedol ar wahân a fydd yn masnachu drwy'r rhyngrwyd.
- Mae Mur Chwaraeon Peulwys yng Nghonwy yn gynllun arall sy'n dangos y cysylltiad llwyddiannus hwn â Phobl mewn Cymunedau. Rhoddwyd arian i ategu'r gwaith adfywio ar Stad Peulwys sy'n cael ei ariannu drwy'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau. Ariannodd y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy fur chwaraeon ar gyfer plant a phobl ifanc ar y stad gan nad oedd unrhyw gyfleusterau yno ar eu cyfer. Mae'r ddarpariaeth hon wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar y stad.
- Mae prosiect hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth wedi cael ei ariannu yng Nghaerau, Caerdydd. Mae trigolion y stad yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu er mwyn sicrhau gwaith.
- Mae prosiect yng Ngwynedd ar Stad Pentre Helen wedi galluogi chwech o'r trigolion i gofrestru ar gwrs NVQ mewn Gweinyddu Busnes.
- Mae prosiect Adfywio Cymunedol Betws ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi galluogi trigolion i gael gwaith. At hynny, mae rhai o drigolion eraill y stad wedi cofrestru i ddilyn cyrsiau technoleg gwybodaeth uwch gyda golwg ar gael gwaith a lleoliadau gwaith.

- Mae cynllun i helpu pobl i gael gwaith wedi cynorthwyo saith o drigolion Ynysowen i gael gwaith.
- Mae gweithwyr Datblygu Cymunedol yn chwarae rhan hanfodol o safbwynt annog trigolion i ymgymryd â gweithgareddau dysgu ac mae chwe gweithiwr datblygu yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy. Heblaw am yr elfen hyfforddi, mae'r gweithwyr hyn yn golygu bod trigolion y stad yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac yn cael dweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd yn eu cymuned. Mae Adfywio Mount View yn Ynysowen, ail brosiect Cymunedau Cynaliadawy yn Ynysowen, yn enghraifft dda o'r arferion da hyn. Mae'n mynd ati i gynnwys y trigolion lleol yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae chwe deg y cant o'r trigolion yn cymryd rhan weithredol ym mhrosiect adfywio Mount View.

Cafwyd rhai anawsterau – gwelwyd peth oedi mewn prosiectau wrth recriwtio gweithwyr, ac mewn eraill, bu oedi wrth gwblhau gwaith adeiladu. Profodd un prosiect oedi am naw mis am fod newidiadau ymhlith staff y corff arweiniol.

Er hynny, mae'r holl gynlluniau wedi cael eu traed o danynt bellach ac mae adroddiadau am y gweithgareddau yn dechrau adlewyrchu'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud.

**Y Sefyllfa Hyd yn Hyn**

10. Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Llywodraeth Leol a Thai yrail gylch ariannu o dan y rhaglen. Ar gyfer 2000/2001, darperir £600,000 ac ychwanegiad un-tro o £400,000 y cytunwyd arno gan y Gweinidog dros Gyllid o dan drefniadau hyblygrwydd diwedd y flwyddyn. O 2000/2001 ymlaen, mae hyn wedi cael ei gyfuno o fewn y gyllideb at 'ddibenion cymunedol' y mae'r cyfanswm ar ei chyfer o dan gynigion y gyllideb ddrafft yn £20.054 miliwn.

11. Mae'r meini prawf cymhwyster wedi cael eu diwygio ychydig ar gyfer yr ail gylch. Estynnwyd gwahoddiadau i Gyrff Gwirfoddol a Chynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn datblygu ffordd fwy cynhwysol o weithredu. Partneriaeth leol, cyfeiriadau strategol lleol a 'chysylltu' â gweithgareddau a phrosiectau lleol a oedd yn bod eisioes oedd yr egwyddorion allweddol.

12. Mae 180 o enwebiadau wedi dod i law ac mae'r rheini bellach yn nwylo'r tîm asesu sy'n cynnwys rheolwyr Ardal, yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau, yr Is-adran Perfformiad a Chyllid. Fel rhan o'r broses, mae'r ceisiadau wedi cael eu hasesu gan ddau aelod allanol o'r Adran Anfantais Gymdeithasol, y Dr Dave Adamson a Barbara Castle. Mae'r Dr Dave Adamson yn arbenigwr ar anfantais gymdeithasol sy'n gweithio ym Mhrifysgol Morgannwg ac mae Barbara Castle yn ymarferydd datblygu cymunedol. Mae'r ddau wedi cael eu secondio i'r Is-adran.

**Cydymffurfio**

13. Nid oes unrhyw faterion newydd ynghylch cydymffurfio.

14. Nid oes unrhyw faterion ynghylch rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Bydd darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gwariant yn 2000/2001 ac, yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf, yn y cyllidebau drafft a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 26 Hydref, ar yr amod bod y Cynulliad yn eu cadarnhau. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol am y papur hwn ac maent yn fodlon ar yr agweddau ariannol arno.

**Themâu Trawsbynciol**

16.Mae'r prosiectau o fewn Cymunedau Cynaliadwy yn darparu amrediad o wasanaethau a chyfleusterau a fydd yn helpu i wella bywyd mewn cymunedau ledled Cymru. Maent yn gydnaws ag amcanion y Cynulliad fel y'u nodir yn 'Gwellcymru.com' a 'Cymru Gynaliadwy'. Un o dair prif thema 'Gwell Cymru' yw gwella bywyd pawb yng Nghymru a datblygu anghenion y presennol heb beryglu gallu'r cenedlaethau a ddaw i fodloni eu hanghenion eu hunain. Thema arall yw mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, a datblygu cymdeithas gynhwysol lle y mae gan bawb gyfle i wireddu eu potensial.

**Gweithredu ar gyfer y pwyllgor pwnc**

I'w nodi.

**Person Cyswllt:**

Sue Wood

Y Gangen Gwybodaeth a Thai â Chymorth

Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau

**Atodiad**

| **Teitl y Prosiect** | **Cyfanswm y Grant a ddyfernir dros 3 Blynedd** | |
|---|---|---|
| | **Cyfalaf** | **Refeniw** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr, Cysylltiadau Cymuned Lewiston**<br><br>(Darparu hyfforddiant datblygu ar gyfer cynrychiolwyr cymdeithas y trigolion a darparu offer ar gyfer neuadd y gymuned | £13,943 | £10,475 |
| **Caerffili, Meithrin Gallu'r Gymuned**<br><br>(Cyflogi Gweithiwr Datblygu Cymunedol) | £12,225 | £60,538 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr, Adfywio Cymuned Betws**<br><br>(Ariannu dau Weithiwr Datblygu Cymunedol) | | £66,782 |
| **Caerdydd, Datblygu Cymuned Caerau**<br><br>(Ariannu Gweithiwr Datblygu Cymunedol a darparu offer a dodrefn ar gyfer cyfleusterau cymunedol) | £4,882 | £33,391 |
| **Merthyr Tudful, Adfywio Cymuned Mount View**<br><br>(Ariannu Gweithiwr Datblygu Cymunedol a darparu mesurau diogelwch ledled Stad Mount View) | £6,157 | £33,391 |
| **Conwy, Pobl Ifanc Peulwys – Mur Chwaraeon**<br><br>( Darparu man chwarae ar gyfer plant Stad Peulwys) | £13,378 | |
| **Gwynedd, Cymuned Gwaun Gynfi**<br><br>(Gwella cyfleusterau sylfaenol yn yr Ysgol Feithrin a darparu cymorth I gymdeithas y trigolion) | £19,302 | £24,775 |
| **Merthyr Tudful, Ynysowen**<br><br>(Ariannu Rheolwr Prosiect ar gyfer Prosiect Cymuned a Phobl Ifanc Aber-fan ac Ynysowen) | | £60,000 |

| | | |
|---|---|---|
| **Merthyr Tudful, Prosiect Crochenwaith Cymuned y Gurnos**<br><br>(Ariannu prosiect crochenwaith yng Ngweithdy Cymuned y Gurnos er mwyn annog y trigolion lleol i ddysgu drwy gyfrwng celf) | £4,119 | £16,125 |
| **Castell-nedd Port Talbot, Cynllun Rheoli Tai**<br><br>(Darparu Gwasanaeth Gofalwyr ar y safle a darparu bws mini ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Partneriaeth Cwm Dulais) | £57,500 | £39,250 |
| **Sir Benfro, Howarth Close, Canolfan Byw'n Iach**<br><br>(Darparu adeilad cymunedol a chyfleusterau chwarae cysylltiedig) | £32,500 | £46,100 |
| **Abertawe, 'The Knowledge'**<br><br>(Cymorth i'r swyddogion Adfywio Cymunedol presennol ddarparu pecyn cynhwysfawr o fesurau datblygu cymunedol) | £129,000 | |
| **Abertawe, Ymestyn T Cymunedol Prosiect 104**<br><br>(Darparu arian ar gyfer dodrefn ac offer i'r ty cymunedol ym<br><br>Mhenderry ) | £16,500 | £31,843 |
| **Rhondda Cynon Taf, "Home Zone" Rhos Aberaman**<br><br>(Darparu lle ar gyfer chwarae ac amwynderau) | £52,875 | |
| **Strategaeth Gymunedol Wrecsam, Bryn-teg a Southsea**<br><br>(Ariannu staff datblygu i weithio mewn ardaloedd Pobl mewn Cymunedau) | | £79,185 |